# Ysgol Glanrafon

*25/10/23*

**Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog Mewn Addysg**

Annwyl Riant/Gofalwr,

Yn Ysgol Glanrfaon, rydym wedi ymrwymo i ddeall anghenion a chefnogi ein dysgwyr gyda'u profiad unigryw drwy gydol eu haddysg. Un grŵp o'r fath yw plant personél y Lluoedd Arfog.

Mae ein hysgol yn cydnabod y gallai plentyn o deulu'r Lluoedd Arfog fod angen cefnogaeth gyda dysgu ac iechyd meddwl a lles ar ryw adeg yn eu bywydau oherwydd eu hamgylchiadau unigryw. Fe allai hyn fod oherwydd symudedd, adleoli, addysg a/neu anghenion cymdeithasol.

Er mwyn rhoi cefnogaeth effeithiol i Blant y Lluoedd Arfog a chryfhau ymrwymiad Cyngor Sir y Fflint i Gyfamod y Lluoedd Arfog, gobeithiwn adnabod plant y Lluoedd Arfog yn Ysgol Glanrafon. Trwy adnabod faint o blant y Lluoedd Arfog sydd yn yr ysgol, gallwn fod yn rhagweithiol wrth adnabod eu hanghenion, sicrhau fod cefnogaeth ar gael a chael gafael ar gyllid os oes angen. Gallwn weithio hefyd gyda Chefnogi Plant Milwyr mewn Addysg (SSCE) Cymru er mwyn datblygu ein darpariaeth ymhellach i blant y Lluoedd Arfog.

SSCE CYMRU — SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES — CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

**Amcan SSCE Cymru yw darparu'r cymorth addysgol gorau posib i blant personél y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae SSCE Cymru yn cydweithio â sefydliadau ar draws y DU er mwyn adeiladu sail tystiolaeth sydd yn effeithio ar bolisi a systemau. Mae'r prosiect hefyd yn darparu cyfres o adnoddau i gefnogi gweithwyr proffesiynol addysg a theuluoedd Lluoedd Arfog ar draws Cymru; sydd yn cynnwys adnoddau, newyddlenni, canllawiau am gyllid a ffilmiau. Mae gan Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg bedwar Swyddog Cyswllt Ysgol Rhanbarthol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog, er mwyn datblygu gwybodaeth, sefydlu arferion da a chefnogi mynediad at gyllid grant perthnasol a chyfleoedd hyfforddiant.**

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.SSCECymru.co.uk

Helpwch ni i ddeall am gymuned y Lluoedd Arfog trwy lenwi'r ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn Dydd Gwener, Tachwedd 10fed os gwlecwh yn dda. Gallwch argraffu y ffurflen a'i yrru i'r ysgol neu ei lenwi'n ddigidol a'i ebostio i'r Swyddfa sef postglanrafon@hwbcymru.net

Bob blwyddyn, rydym yn rhannu cyfanswm nifer (dim enwau) o blant y Lluoedd Arfog sydd wedi'u cofrestru yn ein hysgol gyda SSCE Cymru. Yn unol â chanllawiau GDPR, bydd holl enwau a nodweddion sy'n caniatáu adnabod plant yn parhau i fod yn gyfrinachol.

Cofion cynnes

*Mrs Olwen Corben*
Pennaeth
*Ysgol Glanrafon*

# Ysgol Glanrafon

## Ffurflen ddychwelyd rhiant / gofalwr

Enw'r disgybl …………………………………………………………

Blwyddyn ………………

Dosbarth ____________

**Diffiniad 1 (Diffiniad Llywodraeth Cymru)**
*Mae gan 'blentyn y Lluoedd Arfog' riant / rhieni – neu unigolyn/unigolion gyda chyfrifoldeb rhiant gweithredol sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog:*

- *yn Lluoedd Arfog Parhaol Ei Mawrhydi*
- *gydag ymrwymiad llawn fel rhan o'r gwasanaeth Wrth Gefn llawn-amser*
- *yn gyn-filwr sydd wedi bod yn Gwasanaethu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf*
- *bu farw un o'u rhieni wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac mae'r disgybl yn derbyn pensiwn dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog neu'r Cynllun Pensiynau Rhyfel.*

**Diffiniad 2**
*Unigolyn y mae ei riant, neu brif ofalwr, yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog parhaol, neu fel milwr wrth gefn, neu wedi gwneud hynny ar unrhyw bryd yn ystod 25 mlynedd gyntaf bywyd yr unigolyn hwnnw. *ac nad yw'n cwrdd â'r meini prawf yn niffiniad 1.*

**A yw eich plentyn/plant yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r diffiniadau uchod ar gyfer plentyn y Lluoedd Arfog (dewiswch un yn unig)?**
☐ Ydi – diffiniad 1
☐ Ydi – diffiniad 2
☐ Nac ydi

**Gyda pha Wasanaeth mae eich teulu wedi'i gysylltu ag o?**
☐ Y Llynges Frenhinol / Môr-filwyr Brenhinol
☐ Y Fyddin Brydeinig
☐ Y Llu Awyr Brenhinol
☐ Cyn-filwr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog.
☐ Amh.

I'w ddychwelyd trwy law Swyddfa'r ysgol neu ebostio postglanrafon@hwbcymru.net erbyn Dydd Gwener, Tachwedd 10fed os gwelwch yn dda.